# CYFRAITH AILGYLCHU YN Y GWEITHLE YNG NGHYMRU - Lletygarwch

busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk

businessofrecycling.wrapcymru.org.uk

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales


Y BUSNES O AILGYLCHU
THE BUSINESS OF RECYCLING
WRAP CYMRU

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

# Cynnwys

- Cyflwyniad
- Yr hyn mae’r gyfraith yn ei gwmpasu
- Y gefnogaeth sydd ar gael
- Sut i gydymffurfio
- Astudiaeth achos
- Cwestiynau

# Trefniadau ymarferol y gweminar




- Gofynnwch gwestiynau â chroeso – defnyddiwch y botwm Q&A
- Byddwn yn ateb cwestiynau ar y diwedd
- Os bydd unrhyw gwestiynau nad ydym yn eu cyrraedd, fe wnawn ni anfon atebion ar ôl y gweminar
- Byddwn yn rhannu recordiad o'r gweminar
- Bydd copi o'r sleidiau ar gael (yn Gymraeg a Saesneg)

# Ynglŷn â WRAP

- Corff anllywodraethol gweithredu amgylcheddol byd-eang yw WRAP, sy’n trawsnewid ein systemau nwyddau a bwyd i greu Ffordd Gylchol o Fyw.
- Yn ymarferol, yr hyn y mae hynny'n ei olygu yng Nghymru yw ein bod yn gweithio gyda dinasyddion, cynghorau Cymru, Llywodraeth Cymru a busnesau i helpu i newid sut rydym yn defnyddio adnoddau.
- Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi’r Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle newydd.

# Y Gyfraith Newydd – 6ed Ebrill 2024*

- Mae angen i bob gweithle fel busnesau, y sector cyhoeddus ac elusennau **wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy** yn yr un ffordd ag y mae'r rhan fwyaf o gartrefi yn ei wneud.
- Mae'n **gwahardd gwaredu unrhyw wastraff bwyd i garthffosydd** o safleoedd annomestig.
- Mae'n **gwahardd ffrydiau gwastraff ailgylchadwy** penodol ar wahân rhag mynd i **weithfeydd llosgi a safleoedd tirlenwi**.

Mae'n berthnasol i bob casglwr a phrosesydd gwastraff ac ailgylchu sy'n rheoli gwastraff tebyg i gartrefi o weithleoedd.

**Mae gan ysbytai (GIG a phreifat) ddwy flynedd ychwanegol i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu. Mae'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i garthffosydd yn berthnasol o 6 Ebrill 2024.*

# Pam?

- Mae Cymru eisoes yn dda iawn am ailgylchu o gartrefi, ar hyn o bryd y 1af ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig am ailgylchu o gartrefi – 66%.
- **2il genedl orau'r byd am ailgylchu o gartrefi.**
- Y nod yw sicrhau cyfraddau ailgylchu uchel ar draws pob sector, nid o gartrefi yn unig.
- Gellid ailgylchu dros 70% o ddeunyddiau yn y ffrwd gwastraff masnachol.



# Pam?

**Mae ailgylchu'n lleihau allyriadau carbon**

- Mae 45% o allyriadau carbon o ganlyniad i'r cynhyrchion rydym yn eu prynu
- Daw 90% o golledion bioamrywiaeth a straen dŵr o echdynnu adnoddau

Mae cynyddu ailgylchu hefyd yn:

- cynyddu swm ac ansawdd y deunyddiau eilgylch y gellir wedyn eu defnyddio gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru a lleihau'r deunyddiau crai a ddefnyddir;
- cefnogi gweithleoedd i leihau gwastraff ac o bosibl arbed arian;
- helpu'r economi greu Cymru wyrddach.

## Pam?

**Bydd hyn yn galluogi system ailgylchu gyson ble bynnag y mae unrhyw un yn gweithio, yn gorffwys neu'n chwarae.**

ailgylchu
recycle

# Pwy?

- eiddo amaethyddol;
- bariau a thafarndai;
- llety gwely a brecwast, gwestai;
- gorsafoedd bysiau; gorsafoedd rheilffordd; porthladdoedd; meysydd awyr; meysydd hofrenyddion;
- meysydd gwersylla a pharciau carafanau (ond nid carafanau unigol);
- cartrefi gofal, cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio;
- sinemâu;
- canolfannau cymunedol a neuaddau pentref;
- safleoedd adeiladu;
- sefydliadau addysg fel prifysgolion, colegau ac ysgolion;
- safleoedd adloniant a chwaraeon, yn cynnwys canolfannau hamdden;
- ffatrïoedd;
- setiau cynhyrchu ffilmiau a theledu;
- modurdai atgyweirio a thrin cerbydau;
- canolfannau garddio;
- adeiladau treftadaeth;
- parciau gwyliau a chyrchfannau ymwelwyr;
- ysbytai;
- llyfrgelloedd ac amgueddfeydd;
- swyddfeydd;
- marchnadoedd awyr agored;
- fferyllfeydd, meddygfeydd, deintyddfeydd, optometryddion, optegwyr, podiatryddion a chyfleusterau gofal sylfaenol eraill;
- mannau addoli;
- carchardai;
- bwytai a chaffis;
- gorsafoedd gwasanaethau a gorsafoedd petrol;
- siopau a chanolfannau siopa;
- meysydd sioeau;
- caeau a stadia chwaraeon;
- tecawês a gwerthwyr bwydydd symudol;
- theatrau a lleoliadau'r celfyddydau;
- lleoliadau digwyddiadau dros dro fel gwyliau a sioeau, yn cynnwys digwyddiadau awyr agored;
- warysau; a
- gweithdai.

Os mai presenoldeb ar-lein sydd gennych yn bennaf, bydd angen i chi gydymffurfio â'r newidiadau ar unrhyw eiddo a ddefnyddiwch.

# Gwastraff sy’n debyg i wastraff o’r cartref




- Dim ond i ddeunyddiau gwastraff fel y rhai a geir mewn cartrefi y mae'r gyfraith yn berthnasol
  - **Papur a chardbord**
  - **Gwydr**
  - **Metel, plastig, a chartonau** (a deunyddiau pacio eraill tebyg, er enghraifft cwpanau coffi)
  - **Bwyd** – *dim ond ar gyfer safleoedd sy’n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos*




Nid yw’n cynnwys:

- Gwastraff adeiladwaith
- Gwastraff diwydiannol
- Gwastraff amaethyddol



**Ac eithrio deunyddiau gwastraff a ailgylchir yn gyffredin fel y rhai a geir mewn cartrefi.**

# Mae tair rhan i'r gyfraith:

1. Y gofynion i wahanu
2. Gwaharddiadau llosgi a thirlenwi
3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd



# 1. Y gofynion i wahanu

Mae angen casglu'r deunyddiau canlynol ar wahân:

- **Papur a cherdyn**
- **Gwydr**
- **Metel, plastig, a chartonau** (a deunyddiau pacio eraill tebyg, er enghraifft cwpanau coffi)
- **Bwyd, yn cynnwys bwyd hylifol** – dim ond ar gyfer safleoedd sy'n cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd yr wythnos
- **Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu (sWEEE)**
- **Tecstilau heb eu gwerthu**



**Deunyddiau i'w cadw ar wahân pan gânt eu cyflwyno i'r casglwr gwastraff**

**Deunyddiau ailgylchadwy a gesglir ar wahân i'w cadw ar wahân ac nid i'w cymysgu**

# 2. Gwaharddiadau ar losgi a thirlenwi

**Llosgi**
***(deunyddiau a gesglir ar wahân)***

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE
- Tecstilau heb eu gwerthu

**Tirlenwi**
***(deunyddiau a gesglir ar wahân)***

- Papur a cherdyn
- Metelau
- Plastig
- Gwydr
- Cartonau
- Bwyd
- Holl sWEEE (yn cynnwys heb ei werthu)
- Holl decstilau (yn cynnwys heb eu gwerthu)

**Gwaharddiad ar anfon <u>holl</u> wastraff pren o eiddo annomestig a domestig i safleoedd tirlenwi**

# 3. Gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffosydd

- Gwaharddiad ar waredu holl wastraff bwyd i garthffosydd gan gynnwys trwy beiriannau cnoi, peiriannau dad-ddyfrhau neu driniaeth ensymau.
- Bydd hyn yn dargyfeirio bwyd gwastraff rhag cael ei waredu i Dreulio Anaerobig ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Gwastraff bwyd i'w gasglu ar wahân yn y ffynhonnell o bob gweithle sy'n cynhyrchu 5kg neu fwy yr wythnos.





# Gorfodaeth

- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy’n gyfrifol am wneud yn siŵr bod deunyddiau’n cael eu gwahanu a’u casglu’n gywir, a bod y gwaharddiad ar ailgylchu rhag mynd i losgi a thirlenwi yn cael ei ddilyn.
- Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y dilynir y gwaharddiad ar wastraff bwyd rhag mynd i garthffosydd.
- Os na fyddwch yn cydymffurfio â’r gyfraith, gallai olygu dirwy i’ch gweithle.

# Gorfodaeth


Cyfoeth Naturiol Cymru / Ailgylchu yn y Gweithle – dulliau CNC o reoleiddio

- Mae gan CNC 12 o swyddogion ledled Cymru i helpu busnesau a rheoleiddio'r gofynion newydd
- Mae eu ffocws cychwynnol wedi bod ar sicrhau bod busnesau a chasglwyr gwastraff yn ymwybodol o'r gyfraith newydd
- Gan ddilyn egwyddorion rheoleiddio CNC, mae ffocws ar ganlyniadau amgylcheddol
- Mae'r dull a ddefnyddir yn seiliedig ar dystiolaeth a risg
- Os bydd angen, defnyddir yr ystod lawn o offer rheoleiddio sydd ar gael, gan gynnwys dirwyon
- Mae meddianwyr eiddo a safleoedd yn gyfrifol ac yn atebol am weithredoedd eu staff

# Y gefnogaeth sydd ar gael

# Llywodraeth Cymru

- [Ailgylchu yn y gweithle | LLYW.CYMRU]
- Gwefan Llywodraeth Cymru, yn cynnwys dolen i'r Cod Ymarfer
- Canllawiau cyffredinol ar y newidiadau
- Mae yna ymgyrch cenedlaethol yn y cyfryngau yn hyrwyddo'r gyfraith newydd


English

Ailgylchu yn y Gweithle, mae'n bryd i ni sortio hyn.

## Mae ailgylchu yn y gweithle wedi newid

Mae'n gyfraith i bob busnes, elusen a sefydliad sector cyhoeddus i sortio eu gwastraff er mwyn ei ailgylchu.

Mae'n berthnasol i'r holl gasglwyr a phroseswyr gwastraff a deunydd ailgylchu sy'n rheoli gwastraff gweithleoedd sy'n debyg i wastraff cartrefi.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y gyfraith hon i wella ansawdd y ffordd rydym yn casglu a gwahanu gwastraff a chynyddu'r gwaith hwn.

### Pa wastraff sydd angen ei wahanu

Mae angen gwahanu'r deunyddiau canlynol i'w casglu ar wahân:


- Bwyd
- Papur a cherdyn
- Gwydr
- Metelau, plastig a chartonau
- Tecstilau sydd heb eu gwerthu
- Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff bach sydd heb eu gwerthu (sWEEE)

Mae hefyd gwaharddiad ar:

- Anfon unrhyw wastraff bwyd (o ba faint bynnag) i garthffosydd
- Gwastraff a gesglir ar wahân sy'n mynd i beiriannau llosgi a safleoedd tirlenwi
- Pob gwastraff pren sy'n mynd i safleoedd tirlenwi

## I bwy mae'r gyfraith yn berthnasol

www.llyw.cymru/ailgylchu-yn-y-gweithle




Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân i Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU




# Cymorth WRAP Cymru:

## Gwefan Y Busnes o Ailgylchu

busnesoailgylchu.wrapcymru.org.uk

businessofrecycling.wrapcymru.org.uk



# Cymorth WRAP Cymru

**Canllawiau a chymorth penodol ar gyfer sectorau ar sut i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer y sectorau canlynol:**

- Lletygarwch a gwasanaethau bwyd
- Manwerthu
- Busnesau bach a chanolig (SME)
- Lleoliadau addysg a phrifysgolion
- Lleoliadau preswyl
  - Canllawiau penodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl
- Digwyddiadau awyr agored (gwyliau, er enghraifft)
- Cyfleusterau adloniant a hamdden
  - Canllawiau ac adnoddau cyfathrebu penodol ar gyfer parciau carafanau, meysydd gwersylla a Pharciau Gwyliau

# Cymorth WRAP Cymru

**Adnoddau cyfathrebu:**

- Posteri – A4, A5
- Potensial ar gyfer posteri sector-benodol
- Sticeri biniau
- Eiconau ffrydiau deunyddiau – yn cynnwys ffrwd newydd
- Canllaw defnyddiwr ar sut i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau
- Templed PowerPoint i'w ddefnyddio mewn sesiynau briffio staff
- Canllawiau ar faint o finiau sydd eu hangen arnoch

Anfonwch ebost gydag unrhyw gwestiynau neu awgrymiadau:

WalesRecyles@wrap.org.uk


CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk











## A guide to getting the most out of your recycling collection

Y BUSNES O AILGYLCHU
THE BUSINESS OF RECYCLING
WRAP CYMRU

**Workplace recycling is now law in Wales**

This guide on the amount of recycling and waste typically created by different businesses is to help you to work out the recycling and waste needs of your workplace.

It is important to understand the amount of each recycling stream and waste you produce so you have the right containers and collection frequencies, and a waste and recycling service that meets your needs.

If your bins regularly overflow or are half full, talk to your waste collector about changing your arrangements. This could reduce the number of bins you need, reduce your costs and optimise collections.

Remember to consider what could affect how much waste you generate, for example, tourist season, Christmas holidays, or changes in staffing levels.

Your waste collector should be able to give you information on other bin sizes available or you may wish to get quotes from a few different collectors.



The Code of Practice provides all the detail about how to comply with the new law (www.gov.wales/workplacerecycling)

You can find more guidance at www.businessofrecyclingwales.com or you can email Walesrecycles@wrap.org.uk

## Restaurants: What's in your bin?



**The proportions of material taking up space in the bin of a typical restaurant.**

The new Workplace Recycling Regulations are now law and all workplaces across Wales must comply with the new requirements. This 'Bin Guide' will assist you to work out your requirements for recycling and waste containers once your materials are separated out from each other.

A conversation with your waste collector about your requirements for your new collection is strongly recommended.

Further guidance is available at www.businessofrecyclingwales.com

An average licensed restaurant producing approximately 2 large trade bins of material each week might adopt a collection profile as set below:

| | Containers | Frequency | Label |
|---|---|---|---|
| Cardboard & paper | 1 X 660 litre bin | Collected weekly<br>Space-constrained businesses may be able to set cardboard out in bundles - check with your collector | |
| Plastic, cartons & metal | 2 X 240 litre bins | Collected weekly<br>A single 360 litre bin may be sufficient in some cases | |
| Glass | 1 X 240 litre bin | Collected weekly<br>Avoid filling to the top to prevent breakages | |
| Food waste | 1 X 240 litre bin | Collected weekly<br>Many collectors apply a fill-level limit as these bins are heavy when full | |
| Non-recyclable waste | 1 x 660 litre bin | Collected weekly | |

# Manteisio i'r eithaf ar eich casgliad ailgylchu

- Eich helpu i gyfrifo faint o finiau ar gyfer pob ffrwd ddeunydd sydd eu hangen a pha mor aml y mae angen eu casglu
- Mae'r enghraifft hon o fwytai yn seiliedig ar 2 fin masnachol mawr
- Mae saith canllaw ar gael, yn cynnwys tafarndai, tecawês a gwestai

# Sut i weithredu ar y gofynion

# Adolygiad gwastraff

**Deall eich gwastraff ac ailgylchu**

Bydd adolygiad gwastraff yn nodi pa wastraff a gynhyrchir, pa symiau ohono, a pha ailgylchu sydd eisoes yn digwydd.

Mae'r ardaloedd sy'n cynhyrchu gwastraff yn cynnwys:

- **Ceginau, caffis ar y safle, a stondinau bwyd:**
    - **Mannau paratoi bwyd** – bwyd (bwyd wedi difetha a gwastraff paratoi), deunydd pacio fel metel, gwydr, cardbord, ffilmiau plastig a deunydd lapio
    - **Ardaloedd bwyta bwyd** – bwyd (gwastraff plât), gwastraff deunydd pacio fel caniau diod, poteli plastig a gwydr, cartonau diodydd, cardbord, a phapur
- **Ystafell staff/ystafell fwyta/swyddfa** – papur, bwyd, a deunyddiau pacio
- **Ardaloedd cyhoeddus fel cynteddau** – bwyd heb ei fwyta, gwastraff deunydd pacio fel caniau diod, poteli plastig a gwydr, cartonau diodydd, cardbord, a phapur

Ystyriwch yr adegau prysuraf pan all gwastraff gynyddu h.y. y Nadolig neu leoliadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.

# Atal gwastraff

Bydd atal faint o wastraff yr ydych yn ei gynhyrchu yn helpu i arbed arian

- Cyfrannwch stoc dros ben neu heb ei werthu e.e. drwy'r ap 'Too Good To Go' Too Good To Go | Save Good Food From Going To Waste
- Darparwch fagiau cludo i gwsmeriaid gael mynd â'u bwyd heb ei orffen adref gyda nhw
- Prynwch nwyddau wedi'u hailgylchu, neu rai y gellir eu hail-lenwi neu eu hailddefnyddio pan bynnag fo'n bosibl
- Darparwch ffynhonnau dŵr i staff eu defnyddio ac osgoi dewisiadau tafladwy untro
- Gofynnwch i'ch cyflenwyr ddefnyddio deunyddiau pacio cludo dychweladwy y maent yn ei gasglu gennych y tro nesaf y byddant yn danfon nwyddau i chi
- Ystyriwch ffyrdd o fynd yn ddi-bapur
- Ar gyfer diodydd tecawê, anogwch gwsmeriaid i ddod â'u cwpan ailddefnyddiadwy eu hunain drwy godi am gwpanau untro a
- Sicrhewch fod deunyddiau pacio ar eich bwyd a diod tecawê yn cael ei leihau a phan fod deunydd pacio'n cael ei ddefnyddio, fod modd ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio.

# Casgliadau ar wahân




**Sefydlu cynllun ailgylchu sy'n cydymffurfio**

Bydd y cyfrifoldeb i gydymffurfio'n disgyn ar ysgwyddau perchennog y busnes

**Ystyriwch y canlynol:**


- A fydd cael casgliadau ailgylchu ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos yn helpu i leihau gwastraff rhag cronni
- Efallai mai ychydig yn aml fydd yn gweithio'n well i chi
- Os nad oes gennych lawer o le ar gyfer cynwysyddion allanol, a allech chi rannu biniau gyda busnesau eraill i helpu i leihau costau a'r lle sydd ei angen?
- Siaradwch â'ch casglwr gwastraff presennol am eich anghenion ailgylchu newydd
- Sicrhewch ddyfynbrisiau gan amrywiaeth o gasglwyr i gael y pris gorau a'r gwasanaeth mwyaf addas i chi

# Biniau


- Dewiswch y **cynwysyddion** y bydd eu hangen arnoch ar gyfer pob defnydd y tu mewn a'r tu allan i'ch safle. Gallwch ddefnyddio ein canllawiau maint biniau i gyfrifo faint o finiau y gallai fod eu hangen arnoch a pha mor aml i gael eu casglu.
- Mae'n well, ac yn aml yn haws, gwahanu deunyddiau i'w hailgylchu **cyn gynted ag y maent wedi cael eu defnyddio**, yn hytrach na cheisio eu gwahanu yn ddiweddarach.
- Gwnewch hi'n haws rhoi pethau yn y bin ailgylchu cywir, drwy osod y bin gwastraff cyffredinol wrth ymyl y biniau ailgylchu.
- Rhaid cyflwyno'r deunyddiau ailgylchadwy i'w casglu **ar wahân i'w gilydd**.

**Bydd angen i'r biniau:**

- Fod yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl, gan gynnwys defnyddwyr ag anableddau, a'ch casglwr gwastraff;
- Beidio bod mewn lleoliadau sy'n achosi rhwystr, yn creu perygl tân neu'n rhwystro llwybrau dianc;
- Darparu digon o gapasiti;
- Fod yn agos at ble mae'r gwastraff a'r ailgylchu yn cael ei gynhyrchu;
- Fod yn daclus, yn lân, ac yn rhydd o annibendod neu wastraff rhydd; a
- Fod yn ddiogel a ddim yn gadael i wastraff neu ailgylchu ddianc.



# Bwytai:
## Beth sydd yn eich bin?



# Bwytai:
## Beth sydd yn eich bin?

- Efallai y byddai bwyty trwyddedig cyfartalog sy'n cynhyrchu llond oddeutu 2 fin masnachol mawr o ddeunydd yn mabwysiadu proffil casgliadau fel y dangosir yma.


- Bydd gofynion yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol, ond mae hwn yn bwynt cyfeirio.

| | Containers | Frequency | Label |
|---|---|---|---|
| Cardboard & paper | 1 X 660 litre bin | Collected weekly<br>Space-constrained businesses may be able to set cardboard out in bundles - check with your collector | |
| Plastic, cartons & metal | 2 X 240 litre bins | Collected weekly<br>A single 360 litre bin may be sufficient in some cases | |
| Glass | 1 X 240 litre bin | Collected weekly<br>Avoid filling to the top to prevent breakages | |
| Food waste | 1 X 240 litre bin | Collected weekly<br>Many collectors apply a fill-level limit as these bins are heavy when full | |
| Non-recyclable waste | 1 x 660 litre bin | Collected weekly | |

# Hyfforddiant staff

- Gofynnwch am syniadau ar sut y gallai cynllun weithio neu fod yn well
- Rhowch gyfarwyddiadau clir ar yr hyn y dylent ei wneud
- Darparwch hyfforddiant i weithwyr parhaol, tymhorol a dros dro
- Rhannwch wybodaeth am ailgylchu drwy gyfathrebu yn rheolaidd
- Gofynnwch am adborth.

# Iechyd a Diogelwch




- Gwnewch yn siŵr bod eich storfa wastraff, a sut rydych chi'n ei symud, yn lleihau'r risg o ddamweiniau.
- Mae'n bwysig bod biniau a mannau storio gwastraff o'r maint cywir, yn hawdd eu cyrraedd, yn hawdd eu symud ac nad ydynt yn rhwystro allanfeydd brys.
- Gwiriwch unrhyw gyfyngiadau posibl ar gynwysyddion gwastraff sy'n cael eu gadael y tu allan i'ch eiddo gan ei bod yn debygol y bydd mwy o finiau'n cael eu casglu.

I gael rhagor o wybodaeth am Iechyd a Diogelwch a rheoli gwastraff

- Casglu gwastraff a deunyddiau ailgylchadwy (hse.gov.uk)
- Canllawiau WISH – WISH (wishforum.org.uk)

# Gwastraff lletygarwch

# Gwastraff lletygarwch

Rhowch y rhain yn y bin gwastraff cyffredinol
















# Gwastraff lletygarwch








Mae diod wedi'i eithrio o'r diffiniad ac felly gellir ei roi i lawr y garthffos.



Ni ddylid rhoi bwyd i lawr y sinc, mae hyn yn cynnwys bwyd hylifol fel cawl ac iogwrt
Rhaid ei roi yn y bin gwastraff bwyd

# Gwastraff lletygarwch














- Cwpanau papur gyda haen ‘blastig’ mewnol gwrth-ddŵr, bioddiraddadwy y gellir ei chompostio – **NA**
- Cwpanau diodydd papur gyda haenen blastig – **IE**

# Cwpanau untro

Allwch chi leihau'r nifer sy'n cael eu defnyddio?

- Cwpanau y gellir eu hailddefnyddio (e.e. ceramig) ar gyfer cwsmeriaid sy'n yfed i mewn
- Ar gyfer tecawê, anogwch gwsmeriaid i ddod â'u cwpan ailddefnyddiadwy eu hunain drwy godi am gwpanau untro





O dan y deddfau newydd, gellir casglu llawer o gwpanau gyda metelau a phlastigau <u>OND</u> dim ond os yw eich casglwr gwastraff yn eu derbyn fel hyn.

Efallai y bydd rhai casglwyr yn gofyn iddynt gael eu gwahanu

Siaradwch â'ch casglwr gwastraff am sut i gasglu cwpanau tafladwy

*DS Nid yw hyn yn cynnwys cwpanau gyda leinin 'plastig' compostadwy neu fioddiraddadwy.*

# Gwaharddiad ar Blastigion Untro

Mae’r gwaharddiad ers 30 Hydref 2023 yn cynnwys:

**Plastig:**

- platiau - *gan gynnwys platiau papur ag arwyneb plastig wedi'i lamineiddio*
- cyllyll a ffyrc - *e.e. ffyrch, llwyau, cyllyll*
- ffyn troi diodydd
- ffyn balŵns
- bydiau cotwm gyda choesau plastig
- gwellt yfed – *gydag eithriadau fel bod pobl sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn ddiogel ac yn annibynnol yn gallu parhau i’w cael*

**Polystyren:**

- cwpanau a chynwysyddion bwyd tecawê wedi'u gwneud o bolystyren allwthiol ehangedig neu ewynnog

Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023



# Gweithleoedd sy’n cynhyrchu ac yn trin gwastraff bwyd

Mae’r gyfraith i wahanu ac ailgylchu gwastraff bwyd yn berthnasol i unrhyw eiddo sy’n cynhyrchu dros **5kg o wastraff bwyd yr wythnos**, megis:

- Gwestai
- Bwytai
- Caffis
- Tecawês
- Busnesau arlwyo (gan gynnwys y rheini mewn digwyddiadau fel stondinau bwyd a digwyddiadau)
- Cyrtiau bwyd canolfannau siopa
- Stadia chwaraeon
- Ffreuturau
- Tafarndai
- Swyddfeydd gyda ffreuturau, caffis neu gyfleusterau cegin staff
- Ysgolion, colegau, carchardai, cartrefi nyrsio ac ysbytai ac
- Unrhyw weithleoedd eraill sy'n gweini bwyd.

# Gwastraff bwyd a hylendid

Mae'r [Asiantaeth Safonau Bwyd (www.food.gov.uk)](http://www.food.gov.uk) yn darparu canllawiau sy'n golygu bod angen i chi:

- storio gwastraff bwyd mewn cynwysyddion y gellir eu selio sydd yn;
  - solet, ac yn ddigon cryf i ddal gwastraff bwyd;
  - mewn cyflwr da – h.y., heb doriadau neu holltau a allai alluogi plâu i gael mynediad at wastraff neu achosi gollyngiadau a
  - hawdd ei lanhau a'i ddiheintio;
- tynnu gwastraff bwyd a sbwriel arall o ardaloedd cynted â phosibl a
- chael digon o gyfleusterau storio gwastraff i storio a gwaredu gwastraff bwyd a sbwriel arall chadw ardaloedd eraill yn lân.

# Cymorth gan WRAP ar gyfer lleihau gwastraff bwyd




- Mae ymgyrch The Guardians of Grub yn cefnogi busnesau Lletygarwch a Gwasanaethau Bwyd i leihau'r swm brawychus o fwyd sy'n cael ei wastraffu bob blwyddyn. www.GuardiansOfGrub.com

  *Rydym yn gofyn i Brif Weithredwyr ac uwch arweinwyr godi ac arwain y ffordd i leihau eu gwastraff bwyd, gan wneud y gorau o fis Tachwedd i fwrw ymlaen â rhoi eu cynlluniau gweithredu ar waith cyn eu mis prysuraf ym mis Rhagfyr.*

- Mae Pecyn Cymorth Map Trywydd Lleihau Gwastraff Bwyd WRAP yn fap trywydd a phecyn cymorth ar gyfer y diwydiant cyfan sy'n helpu busnesau bwyd i gymryd camau wedi'u targedu i leihau gwastraff yn eu gweithrediadau eu hunain, eu cadwyn gyflenwi a chan ddefnyddwyr.

  *www.wrap.ngo/resources/tool/food-waste-reduction-roadmap-toolkit*



# Astudiaeth achos

Sarah Ivory

Rheolwr Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Whitbread PLC

# Crynodeb

- Mae'r gyfraith nawr ar waith
- Yn berthnasol i holl weithleoedd
- Gofyniad i wahanu ar gyfer ailgylchu
- Dim gwastraff bwyd i garthffosydd
- Gwaharddiadau ar rai ffrydiau gwastraff rhag mynd i'w llosgi neu i dirlenwi

# Diolch

Cymru yn ailgylchu
Wales recycles

Y BUSNES O AILGYLCHU
THE BUSINESS OF RECYCLING
WRAP CYMRU

Gweithredu ar Hinsawdd Cymru
Climate Action Wales

WalesRecycles@wrap.org.uk

CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk